PARTNERIAETH PLANT A PHOBOL IFANC SIR DDINBYCH
DENBIGHSHIRE CHILDREN & YOUNG PEOPLE'S PARTNERSHIP

Datganiad gwrthdlodi a chynllun gweithredu Sir Ddinbych 2009 i 2012

Logo Gwrthdlodi buddugol
Sophie Knowles o Ysgol Bodnant

Gorffennaf 1af 2009 f17

Cynnwys

	Tudalen
1 Datganiad Gwrthdlodi	3
2 Cefndir i gynllun gweithredu 2009 – 2012	4
3 Llinellau a mesurau tlodi cyfredol	4
4 Camau'r Llywodraeth	7
5 Ymateb lleol i faterion cenedlaethol	8
6 Cynlluniau gweithredu gwrthdlodi Sir Ddinbych	8
7 Cynlluniau, gwybodaeth a chysylltiadau defnyddiol	10
8 Cyfraniadau i'r cynllun gweithredu	10
9 Cynllun gweithredu i leihau tlodi ymysg oedolion	11
10 Cynllun gweithredu i leihau tlodi ymysg plant	17

1 Datganiad Gwrthdlodi

Fe wnawn ni (Cyngor Sir Ddinbych), mewn partneriaeth â sefydliadau lleol, bopeth a allwn ni i leihau tlodi yn Sir Ddinbych.

Credwn fod gennych hawl i:

- **ddigon o incwm i gyfarfod ag anghenion sylfaenol (fel bwyd, cartref, cynhesrwydd a gofal iechyd);**
- **gyrchiad cyfartal i'n gwasanaethau i gyd;**
- **gyrchiad cyfartal i waith;**
- **gael ymglymiad â'ch cymuned.**
- **roi eich barn ar y ffordd yr ydym yn cyflenwi adnoddau a gwasanaethau lleol.**

Rydym yn sylweddoli:

- **nad oes gan lawer ohonoch chi'r hawliau hyn;**
- **bod tlodi'n effeithio'n waeth ar rai grwpiau a chymunedau nag eraill;**
- **nad ydych yn cael eich trin yn gyfartal neu rydych yn llai ymglymedig â'ch cymuned leol heb yr hawliau hyn.**

Ein nod yw lleihau tlodi drwy:

- **ofyn am eich barn ar gynlluniau gweithredu gwrthdlodi;**
- **hyrwyddo ein cynllun gwrthdlodi**
- **weithredu ar gynlluniau Llywodraeth Cynulliad Cymru a fynegir yn "Dyfodol Tecach i'n Plant" ac**
- **ymgymryd â gweithrediadau gwrthdlodi lleol allweddol bob blwyddyn.**

Bob tri mis, fe fesurwn ba mor bell yr ydym wedi lleihau tlodi drwy adrodd ar y cynnydd a wnaethpwyd gyda thargedau a chanlyniadau ein cynllun gweithredu.

2 Cefndir i Gynllun Gweithredu 2009 – 2012

Mae'r Datganiad Gwrthdlodi a'r Cynllun Gweithredu wedi tyfu dros y deuddeng mlynedd diwethaf o rwydwaith bychan lleol i un sy'n awr â 111 o gysylltiadau'n ymglymu oddeutu 30 o sefydliadau. Daw ein symbyliad i leihau tlodi oddi wrth:

- bobl sy'n byw mewn tlodi neu sydd â phrofiad o dlodi ac eithrio cymdeithasol;
- brofiad staff a gwirfoddolwyr o ystod o sefydliadau sy'n gweld effeithiau diangen a niweidiol tlodi a dioddef yn wythnosol;
- ymchwil sy'n dangos bod pobl sy'n byw mewn tlodi â iechyd gwael, mwy o salwch a mwy o ddamweiniau
- plant sydd ddim yn datblygu'n iawn (yn gorfforol neu'n feddyliol) oherwydd tlodi;
- plant sy'n perfformio'n wael yn yr ysgol a'r hyn mae'n ei olygu i'r gymuned leol a'r economi
- y cynilion sy'n ganlyniad i atal effeithiau gwaethaf tlodi, er enghraifft rhoi plant mewn gofal neu gadw troseddwyr mewn sefydliadau;
- lefelau tlodi uchel yn y DU (sydd â'i heconomi'n bumed uchaf yn y byd a'r deuddegfed o ran cyfoeth) lle mae cyfoeth wedi dod yn fwy crynodol;
- gynlluniau Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc, Sir Ddinbych Iach a Strategaeth Dinas y Rhyl, Bwrdd Gwella Adfywio i leihau tlodi;
- ymrwymiad Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cynulliad Cymru i leihau lefelau tlodi'n ymhlith pob grŵp, i gael gwared â thlodi plant a thlodi sy'n ganlyniad i wario i gadw'n gynnes yn y cartref (tlodi tanwydd).
- effeithiau'r dirwasgiad economaidd presennol, fel cynnydd mewn diweithdra, cynnydd mewn dyled bersonol ac adfeddiannu tai, ar deuluoedd incwm isel.

3 Ffiniau tlodi economaidd cyfredol

Mae'r amcangyfrifon tlodi canlynol wedi eu cymryd o 'Arolygon Incwm Cartrefi sy'n Is na'r Cyfartaledd' yr Adran Waith a Phensiynau a fu'n cyfweld â 23,121 o deuluoedd ym Mhrydain Fawr yn ystod 2007/2008. Mae ffin **tlodi incwm** cymharol wedi ei diffinio gan Lywodraethau Ewropeaidd, y DU a Chynulliad Cymru yn 60% o incwm net canolrif cyfartalog *wedi* tynnu treth, Yswiriant Gwladol a threth cyngor, cyfraniad pensiwn gwaith, cynhaliaeth, cynhaliaeth plant, cyfraniadau rhieni i fyfyrwyr sydd i ffwrdd o'r cartref ac ad-daliadau benthyciad myfyrwyr. Mae teuluoedd sy'n byw ar lai na'r lefel yma' mewn tlodi. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n defnyddio'r llinell 60% hon ar ôl tynnu costau tai: rhent, llog ar forgais, treth dŵr ac yswiriant adeiladau. Mae'r symiau wythnosol ar gyfer 2009/2010 wedi eu rhestru yn y tablau canlynol:

Y Cartref	Symiau'r llinell dlodi wythnosol ar gyfer y gwahanol gartrefi yn 2009/2010
Oedolyn Sengl	**118**
Cwpl heb blant	**203**
Rhiant Sengl a	
1 plentyn dan 14	**159**
2 blentyn dan 14	**200**
3 phlentyn dan 14	**241**
4 plentyn (3 dan 14 + 1 dros 14)	**326**
5 plentyn (3 dan 14 a 2 dros 14)	**411**
Cwpl a	
1 plentyn dan 14	**244**
2 blentyn dan 14	**285**
3 phlentyn dan 14	**326**
4 plentyn (3 dan 14 + 1 dros 14)	**411**
5 plentyn (3 dan 14 a 2 dros 14)	**496**
Mae'r ffigurau hyn yn seiliedig ar ffigurau Incwm Cartrefi sy'n Is na'r Cyfartaledd ar gyfer 2007/2008 ynghyd â'r cynnydd blynyddol o 1% a ddefnyddir i'w huwchraddio nhw mewn blynyddoedd blaenorol	

Tlodi Plant

- Gan ddechrau yn 1999, roedd targedau Llywodraeth y Deyrnas Unedig a Llywodraeth Cynulliad Cymru i leihau tlodi plant o chwarter erbyn 2004/2005, i leihau tlodi plant o'r hanner erbyn 2010 a dileu tlodi plant 2020.

- Yn ystod 2006/07 fe gynyddodd nifer y plant mewn tlodi o 100,000 i 2.9m yn y DU. Yn 2007 fe amcangyfrifodd y Sefydliad Astudiaethau Cyllid y byddai angen gwario £3.8bn yn ychwanegol y flwyddyn ar Gredydau Treth Plant os oedd y llywodraeth i gyflawni ei darged o haneru tlodi plant erbyn 2010.

- Yng Nghymru yn ystod **2007/2008** roedd canran y plant a oedd yn byw mewn tlodi incwm cymharol yn **32%** sy'n 205,000 o blant neu o leiaf 5500 o blant yn Sir Ddinbych. Yn niwedd y 1990au roedd yn 36%; yn 2003/04 29%; yn 2004/05 28%; yn 2005/06 28%; 2006/07 29%[1]. Mae'r cwymp mwyaf hwn wedi bod ymysg y tlodi dwysaf (teuluoedd yn byw ar lai na 50% o'r incwm canolrif cyfartalog).

- Diffinnir tlodi difrifol fel byw o dan 50% o'r incwm cartref canolrif a heb hanfodion arbennig e.e. tripiau ysgol, ffrindiau'n dod draw i de, yswiriant cynnwys. Yng Nghymru mae hyn yn effeithio ar **13%** (neu oddeutu 90,000 o blant). Mae diweithdra'n cyfri am

2/3 o dlodi difrifol ac mae 1/3 o blant sydd mewn tlodi difrifol â rhiant anabl. (Plant yng Nghymru: agenda ar gyfer gweithredu (Chwefror 2008)).

Tlodi Pensiynwyr

Fe gynyddodd Tlodi Pensiynwyr ar ôl costau tai yn 2006/7 am y tro cyntaf ers 1998 gan godi o 200,000 i 2.1 miliwn o bobl 19% o'r boblogaeth.

Canrannau a Niferoedd	**2004/5**	**2005/6**	**2006/7**
Cymru (DU) %	18% (18)%	20% (17%)	19% (19%)
Cymru (DU) niferoedd	100,000 (1.9m)	110,000 (1.8m)	105,555 (2.1m)

Tlodi Oed Gwaith

Yn y DU fe gynyddodd niferoedd y bobl sydd o oed gwaith (16 i 65 oed) ac mewn tlodi rhwng 2006/7 a 2007/8. Yng Nghymru roedd yna 360,000 o bobl mewn tlodi oed gwaith yn ystod 2006/2007. Roedd oedolion a oedd yn anabl neu â phartner anabl yn cyfri am 3 ym mhob 10 o'r rheiny mewn tlodi oed gwaith. Roedd oedolion heb unrhyw gymwysterau addysgol yn ddwywaith fwy tebygol o fod mewn tlodi oed gwaith.

Tlodi tanwydd

Mae Tlodi Tanwydd yn effeithio ar **1 ym mhob 3 o gartrefi (30%) yng Nghymru**, sy'n fwy nag yn Lloegr (18%) a'r Alban (29%) oherwydd bod yna fwy o dai â waliau soled yng Nghymru a llai o bobl sy'n gallu defnyddio'r prif gyflenwadau nwy. Mae tlodi tanwydd yn digwydd pan fydd teulu'n gwario dros 10% o'i incwm ar danwydd. Gall effeithiau tlodi tanwydd niweidio iechyd, gan arwain at ffliw, clefyd y galon, strôc a gormodedd o farwolaethau yn y gaeaf a amcangyfrifir i fod rhwng 20,000 a 50,000 yn y DU.

Mynegai Cymru o Amddifadiad Lluosog 2008 (WIMD 08)

Mae'r ystadegau cenedlaethol uchod yn debygol o danbrisio lefelau tlodi yn Sir Ddinbych gan fod rhannau o'r Sir â'r graddfeydd uchaf o ran amddifadedd (cyfuniad o incwm gwael, addysg wael, cyflogaeth wael, tai gwael a chyrchiad gwael i wasanaethau) yng Nghymru. Yn ôl WIMD08, mae gan Sir Ddinbych dair ardal sydd ymysg y 10% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig o'r holl 1896 o ardaloedd drwy Gymru. Gorllewin y Rhyl (1af); Gorllewin y Rhyl 2 (4ydd) a De Orllewin y Rhyl 2 (5ed). Mae pob un o'r ardaloedd bychan hyn yn cynnwys tua 1500 o bobl.

4 Camau'r Llywodraeth i leihau tlodi

Y canlynol yw prif bolisïau Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cynulliad Cymru i leihau tlodi a gellir eu darllen ar y rhyngrwyd.

- **"Terfynu Tlodi Plant: Mater i Bawb" (2008) Llywodraeth y DU**

- Mae **Strategaeth Tlodi Plant Llywodraeth Cynulliad Cymru (2006), Cynllun Gweithredu (2005), Dileu Tlodi Plant (2006), Cymru'n Un (2007)** i gyd yn amlinellu cynlluniau i leihau tlodi mewn 3 o feysydd: cyrchiad i wasanaethau, cyfranogiad mewn penderfyniadau ac incwm.

- **Datganiad Gweinidogaethol:** dileu tlodi a gwella cyfleoedd bywyd yn brif flaenoriaeth i Gabinet Llywodraeth Cynulliad Cymru (Chwef 2008)

- Mae **Deddf Cartrefi Cynhesach a Chadwraeth Ynni Llywodraeth Cynulliad Cymru 2000** yn amcanu i leihau tlodi tanwydd ymysg y grwpiau mwyaf agored i niwed erbyn 2010 a'i ddileu erbyn 2018. Bydd tlodi tanwydd yn digwydd pan fydd teulu'n gwarion dros 10% o'i incwm ar danwydd.

- Mae **Deddf Plant 2004** yn cadw at Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar hawliau'r plentyn mewn saith o amcanion craidd, amcan 7 yn arbennig: "ni ddylai plant a phobl ifanc gael eu difreinio gan dlodi"

- **Papur Ymgynghorol Llywodraeth Cynulliad Cymru (2008)**: Cytundebau ar y Cyd; Dyletswydd Tlodi Plant; dyletswydd lleoedd gofal plant am ddim; cyfarwyddyd Cymorth
-
- Brecwast a nofio am ddim: menter Llywodraeth Cynulliad Cymru i helpu i wella iechyd a gallu disgyblion i ganolbwyntio, i gynorthwyo i godi safonau dysgu a chyrhaeddiad. Nofio am ddim i blant dan 16 yn ystod gwyliau'r ysgol.
- Mesur Plant a Theuluoedd Arfaethedig Mai 2009: Dileu Tlodi Plant; Gwarchod Plant a Gofal Dydd i Blant; Timau Integredig Cefnogi Teulu; Amrywiol: swyddogion Safonau Gofal Cymdeithasol; Cyfleoedd Chwarae : Cyfranogiad mewn penderfyniadau'r Awdurdod Lleol.
-
- Arweiniad ar Dlodi Plant i Bartneriaethau Cymunedau'n Gyntaf Llywodraeth Cynulliad Cymru (2009) sy'n cydnabod y swyddogaeth bwysig sydd ganddynt i leihau tlodi plant. Mae'r rhaglen hwn yn strategaeth tymor hir i wella amgylchiadau byw a rhagolygon i bobl yn y cymunedau mwyaf difreintiedig yng Nghymru.
-
- **Strategaeth Cynhwysiant Ariannol Cymru** (i ddod yn ystod haf 2009).

5 Ymateb Lleol i Faterion Cenedlaethol

Roedd ymateb y Rhwydwaith Gwrth-dlodi i'r rhan ar dlodi plant yn ymgynghoriad Llywodraeth y DU ar ddiwygio lles yn cynnwys yr awgrymiadau canlynol:

- Nad yw gwaith yn ffordd allan o dlodi i lawer o bobl e.e. rhai gofalwyr a rhieni sengl. Mae ar y bobl hyn angen lefelau tebyg o "gefnogaeth gofalwyr" a chynnydd mewn lefelau budd—daliadau i ddod â nhw dros y ffin dlodi incwm canolrif gyfartalog o 60%.

- Mae tlodi mewn gwaith yn dal yn broblem fawr - mae 43% o blant sydd mewn tlodi difrifol mewn teuluoedd nad ydynt yn hawlio budd-daliadau diweithdra fel Cymhorthdal Incwm, Lwfans Ceisio Gwaith neu Fudd-dal Analluogrwydd. Dengys hyn bod llawer o blant yn byw mewn cartrefi sy'n byw ar gyflog isel iawn sydd, o bosib, heb gymorth credydau treth a budd-daliadau mewn gwaith. Dim ond 42 % o blant mewn tlodi difrifol sy'n hawlio Credyd Treth Plant. Dylid dileu rhwystrau i hawlio credydau treth drwy fyrhau'r cyfnodau dyfarnu i 6 mis ynghyd â chynnydd sylweddol yn yr isafswm cyflog.

- Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ddeddfu i ddarparu prydau iach am ddim yn gyffredinol mewn ysgolion (fel yn yr Alban) ac mewn cynlluniau chwarae gwyliau 9 tan 5 am ddim, neu o leiaf eu darparu am ddim i blant o deuluoedd sy'n byw dan 70% o'r incwm net canolrif cyfartalog (gweler 3 – ffiniau tlodi economaidd cyfredol)

6 Cynllun Gweithredu Gwrth-dlodi Sir Ddinbych

Mae llywodraethau'r DU a'r Cynulliad Cymreig wedi amlygu'n ddiweddar na all eu nod o leihau a therfynu tlodi lwyddo heb help partneriaethau a chynlluniau gweithredu lleol. Yn hyn mae Sir Ddinbych wedi bod yn arweinydd yng Nghymru: y cynllun gweithredu a ganlyn fydd y trydydd y mae'r Rhwydwaith Gwrth-dlodi wedi ei gynhyrchu ers 2003. Mae'r cynllun hwn yn seiliedig ar ddau weithdy a gynhaliwyd ym mis Gorffennaf a mis Hydref 2008 ac ar ymgynghoriadau dilynol drwy e-bost a chyfarfodydd.

Mae gan ran gyntaf y cynllun gweithredu atodol sy'n canolbwyntio ar leihau tlodi oedolion 23 o weithrediadau neu brosiectau sy'n gysylltiedig â 5 o themâu:

- Gweithrediadau Cynllun Sir Ddinbych Iach i leihau tlodi
- Mentrau Tai, fel y Cynllun Achub Morgais
- Rhwydweithio gwell
- Hyfforddiant staff
- Mentrau llyfrgell a hyfforddi
- Cynhyrchu incwm, lleihau dyledion a gwella effeithlonrwydd ynni.

Mae gan ail ran y cynllun gweithredu atodol sy'n canolbwyntio ar leihau tlodi plant 26 o weithrediadau neu brosiectau'n gysylltiedig â 6 o themâu:

- Gweithrediadau Cynllun Sengl Plant a Phobl Ifanc Sir Ddinbych
- Cyfarwyddyd Cenedlaethol Cynulliad Cymru i leihau tlodi plant
- Rhwydweithio ac ymwybyddiaeth
- Cwricwlwm ac ysgolion
- Chwarae, hamdden a chludiant
- Mentrau eraill i hawlio budd-daliadau a chredyd treth, er enghraifft, y rheiny sy'n canolbwyntio ar ein tenantiaid

- Mae rhannau o'r cynllun gweithredu sydd wedi eu lliwio'n **wyn** yn dangos gwasanaethau sefydledig sydd â lleihau tlodi'n un o'u prif amcanion.
- Mae'r rhannau **gwyrdd** yn dangos gweithrediadau newydd yn seiliedig ar ddadansoddiad o anghenion pobl.
- Mae'r rhannau **pinc** yn weithrediadau newydd sydd angen gwaith pellach cyn y gallant effeithio ar leihau tlodi.

Mae'r cynllun gweithredu â chod lliw. Mae rhannau'r cynllun gweithredu sydd wedi eu lliwio'n

- **wyn** yn dangos prosiectau neu wasanaethau sefydledig sydd â lleihau tlodi'n un o'u prif amcanion;
- **wyrdd** yn dangos gweithrediadau newydd yn seiliedig ar ddadansoddiad o anghenion pobl;
- **binc** yn dangos gweithrediadau newydd sydd wedi eu cytuno mewn egwyddor ond sydd angen gwaith pellach cyn y gallant helpu i leihau tlodi

.

Mae **Rhwydwaith Gwrth-dlodi Sir Ddinbych** yn agored i unrhyw un sydd â diddordeb mewn lleihau tlodi. Bydd yn cynnal cyfarfodydd monitro bob tri mis a bydd yn gofyn i bobl sydd â chyfrifoldeb arweiniol yn y cynllun gweithredu i adrodd ar ba gynnydd a wnaethpwyd ar y gweithrediadau neu'r prosiectau y maent yn eu harwain. Fe gaiff yr adroddiadau hyn eu coladu gan Reolwr Hawliau Lles a Gwrth-dlodi Cyngor Sir Ddinbych a fydd yn casglu'r adroddiadau hyn ac yn siarad â phrif bartneriaethau strategol Sir Ddinbych: Partneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc, Partneriaeth Sir Ddinbych Iach a'n Bwrdd Gwella Adfywio. **Mae'r cynllun gweithredu atodol yn ddogfen weithio a fydd yn cael ei diweddaru a'i gwella dros y tair blynedd nesaf.**

Am ragor o wybodaeth am y datganiad a'r cynllun gweithredu gwrthdlodi hwn neu Rwydwaith Gwrth-dlodi Sir Ddinbych cysylltwch â Rheolwr Hawliau Lles a Gwrth-dlodi Sir Ddinbych drwy ffonio 01824 712344 neu e-bostio rick.jonesabbas@denbishshire <mailto:rick.jonesabbas@denbishshire>.gov.uk.

7 Cynlluniau, Gwybodaeth a Chysylltiadau Defnyddiol

Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc Sir Ddinbych: cynlluniau ac ymchwil lleol i anghenion pobl yn cynnwys dadansoddiad manylach o faterion tlodi.
http://www.denbighshire.gov.uk/en-gb/DNAP-7JCJMS

Partneriaeth Iechyd Gofal Cymdeithasol a Lles a Chynlluniau Sir Ddinbych
http://www. healthydenbighshire.gov.uk

Cynlluniau Tlodi Plant Llywodraeth Cynulliad Cymru
http://new.wales.gov.uk/topics/childrenyoungpeople/childpoverty

Mae **Cyfarwyddiaeth Ystadegol Llywodraeth Cynulliad Cymru'n** cynhyrchu gwybodaeth ar Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru, data ar Deuluoedd sydd ar Incwm Is na'r Cyfartaledd a dangosyddion tlodi Plant Cymru
www.statswales.wales.gov.uk

Mae **'Datrys Tlodi Plant – Cymru'** yn becyn cymorth Gwrth-dlodi. Fe'i cynhyrchir gan Save the Children a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, gyda chefnogaeth gan Lywodraeth Cynulliad Cymru
http://www.childpovertysolutions.org.uk/

Taclo Tlodi Plant yng Nghymru: Cyfarwyddyd arfer da i ysgolion 2006
www.endchildpovertycymru.org.uk

Children in Wales: **http://www.childreninwales.org.uk**
Save the Children: **www.savethechildren.org.uk**
Barnardos: **http://www.barnardos.org.uk/**
NSPCC: **www.nspcc.org.uk**
Child Poverty Action Group: **http://www.cpag.org.uk/**

8 Mae'r canlynol wedi cyfrannu tuag at y cynllun gweithredu atodol:

Rhwydwaith Gwrth-dlodi Cymru
Cae Chwarae Antur Y Rhyl
Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych
Cyngor ar Bopeth Sir Ddinbych
Strategaeth Dinas y Rhyl
Home Start
Barnardos
Caledfryn Credit Union
Cymunedau'n Gyntaf
Cwmni Cymunedau Gorllewin y Rhyl
Canolfan Gynghori ar Ynni Gogledd Cymru
Siop Gyngor ar Fudd-daliadau'r Rhyl
Y Rhyl yn Symud Ymlaen
Save the Children
Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol
Bwrdd Adfywio Sir Ddinbych
Grŵp Swyddog Arweiniol dros Iechyd a Gwasanaethau Nifer o bobl sy'n byw ar fudd-daliadau
Cymdeithasol
Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc
Strategaeth Pobl Hŷn
Mike Durke – ymgynghorydd tlodi plant a hyfforddwr o Town Hill, Abertawe.

O Gyngor Sir Ddinbych:

Gwasanaeth Llyfrgell
Adran Refeniw a Budd-daliadau
Swyddog Gwybodaeth Adran yr Amgylchedd
Rheolwr Gwasanaethau Cymunedol
Swyddog Comisiynu (Gofalwyr)
Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc
Adran Drafnidiaeth
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai
Sir Ddinbych Iach
Gwasanaethau Tai (Strategaeth)
Uned Polisi Strategol
Asiantaeth Cymuned y Rhyl
Gwasanaethau Hamdden
Adran Dysgu Gydol Oes
Uned Gwrth-dlodi a Hawliau Lles

9 Lleihau Tlodi Oedolion

	Themâu neu Amcanion a Phrosiectau neu Weithrediadau	1. Cost 2. Ariannu wedi ei gymeradwyo	3. Cyfrifoldeb arweiniol 4. Gweithio ar y Cyd 5. Effaith Wledig/Drefol 6. Effaith Cydraddoldeb	7. Amser 8. Mesuriadau 9. Targedau 10. Canlyniadau
1	Cynllun Sir Ddinbych Iach (SDdl): lleihau tlodi a gwella cynhwysiad cymdeithasol			
1.1	**Gwaith i leihau lefel iechyd gwael o ganlyniad i dlodi (Gweithred SDdl 1.1)**	1. Dim 2. Gwasanaethau a phrosiectau presennol	3. 4. Rhwydwaith Gwrth-dlodi a Grŵp Cynhesrwydd Fforddiadwy. 5. Oes 6. Oes	7) 2008/11 8) Cynnydd mewn cymeriant prydau ysgol iachach. Cynnydd mewn cymeriant budd-daliadau a chredyd treth. 9) Cymeriant budd-daliadau a chredyd treth o £6m y flwyddyn. 10) Lleihau tlodi a gwella canlyniadau iechyd
1.2	**Codi ymwybyddiaeth o dlodi, gwella mapio lleol ac adolygu cynnydd ar leihau tlodi yn cynnwys tlodi tanwydd a thlodi ariannol (Gweithred SDdl 1.2)**	Dim	3. Rheolwr Gwrth-dlodi a Hawliau Lles CSDd. 4. Rhwydwaith Gwrth-dlodi a Grŵp Cynhesrwydd Fforddiadwy	7) 2009/12 8) Asesiadau o Anghenion Lleol, Mynegai Amddifadiad Lluosog Cymru, data'r Adran Gwaith a Phensiynau - Teulu ag Incwm sy'n Is na'r Cyfartaledd.
1.3	**Prosiect gwella cyrchiad i hyfforddiant a chyflogaeth i grwpiau difreintiedig (Gweithred SDdl 1.6)** **Project** **1.4.1. Strategaeth Ddinesig** **1.4.2. Bid dan Gronfa Gymdeithasol Ewrop, Blaenoriaeth 2 Cronfa Cydgyfeirio Ewropeaidd**	1) Ariannu cyfatebol o oddeutu £1.5 m (adnoddau presennol) 2) Yn aros canlyniad y fid	3. Rheolwr Strategaeth Ddinesig (RhSDd)	7) 2009/13 8)Cynnydd mewn hyfforddiant a chyflogaeth i grwpiau difreintiedig 9) 700 o gyfranogwyr yn cyrchu cyflogaeth ac 800 yn ennill cymwysterau dros y pedair blynedd gydag ariannu Cydgyfeirio. 10) Lleihau lefelau tlodi drwy gyflogaeth

	Themâu neu Amcanion a Phrosiectau neu Weithrediadau	1. Cost 2. Ariannu wedi ei gymeradwyo	3. Cyfrifoldeb arweiniol 4. Gweithio ar y Cyd 5. Effaith Wledig/Drefol 6. Effaith Cydraddoldeb	7. Amser 8. Mesuriadau 9. Targedau 10. Canlyniadau
1.4	**Cefnogi gwaith Cymunedau'n Gyntaf (Gweithred SDdl 1.7)**	1.Canlyniad bid ariannu o 250k ar gyfer uned gynghori symudol 2.Bid yn cael ei pharatoi ar hyn o bryd	3) Rheolwr Gwasanaethau Cymunedol ac mae'r fid yn cael ei pharatoi gan Gymunedau'n Gyntaf De Orllewin Y Rhyl 4) Bwrdd Partneriaeth Cymunedau'n Gyntaf 5) Oes 6) Oes	7) Nod i'r fid gael ei chymeradwyo yn ystod 2009 8) Ddim ar gael eto 9) Cyrchiad haws i gyngor ar faterion sy'n ymwneud â thlodi – targedau penodol ddim ar gael eto 10) Lleihad mewn tlodi yn Ne Orllewin Y Rhyl ac ardaloedd eraill
1.5	**Annog pob darparwr gwasanaeth i ddangos "gwyro'r rhaglen wrthdlodi" gydag adnoddau presennol a gwneud prosiectau newydd yn rhai gwrthdlodi" mewn adroddiadau a chynlluniau busnes. (Gweithred SDdl 1.8)**		Teclyn Asesu Effaith Cyngor Sir Ddinbych, Sir Ddinbych Iach. Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc, Bwrdd Gwella Adfywio a sefydliadau sy'n gysylltiedig.	
2.	**Mentrau Tai**			
2.1	**Cynllun Achub Morgeisi** I atal teuluoedd a phobl anabl rhag colli eu cartrefi drwy adfeddiannu.	£5 miliwn ar gael ar gyfer Ceisiadau Cymru.	3 & 4. Swyddog Strategaeth Tai a Chymdeithas Tai Clwyd	7. 2009/2011 8. 9. 2009/10 - 5 targed (2 wedi eu cwblhau ac 1 yn gyfredol hyd yma) 10. Digartrefedd wedi ei leihau.
2.2	**Tai Fforddiadwy** I drafod elfen o dai fforddiadwy ar bob safle newydd	Polisi tai fforddiadwy	Swyddog Tai Fforddiadwy	7, 8, 9) 2009/2010 - 26 o unedau fforddiadwy . Cwblhawyd - 31 yn 2008/9 (targed 26)
2.3	**Tai Amlfeddiannaeth** I weithredu'r cynllun trwyddedu gorfodol newydd mewn HMOs	1. Dyletswydd statudol	Rheolwr Strategaeth Tai	Fe gynhyrchir gwybodaeth sy'n berthnasol i wrthdlodi (yn y cynllun busnes perthnasol ar hyn o bryd)
2.4	**Ardal Adfywio Strategol Arfordirol**	1. Heb ei benderfynu.	3. Adfywio Llywodraeth Cynulliad	7. 2009-2015

	Themâu neu Amcanion a Phrosiectau neu Weithrediadau	1. Cost 2. Ariannu wedi ei gymeradwyo	3. Cyfrifoldeb arweiniol 4. Gweithio ar y Cyd 5. Effaith Wledig/Drefol 6. Effaith Cydraddoldeb	7. Amser 8. Mesuriadau 9. Targedau 10. Canlyniadau
	Gogledd Cymru – cynlluniau ar y gweill	2.Ariannu Ardal Adfywio wedi ei gymeradwyo	Cymru 4. Cydweithrediad gyda'r Rhyl yn Symud Ymlaen, Tai Cyngor Sir Ddinbych, Pennaf ac eraill. 5. Trefol	8. I'w pennu 9. I'w pennu 10. I'w pennu
3	**Rhwydweithio**			
3.1	**Codi ymwybyddiaeth berthnasol - rhwydweithio Ysgolion, Colegau, Canolfannau Gwaith, Shelter, Grwpiau Chwarae, Galw i Mewn, Siopau Un Stop**	Dim	3. Rhwydwaith Gwrth-dlodi.	2009/2012
3.2	**Ymestyn menter teulu Ceri drwy Sir Ddinbych gyfan. Datblygu dull o gyfeirio yn seiliedig ar fenter teulu Ceri e.e. dosbarthu taflenni i bob gweithiwr.**	Ariannu presennol	3. Rheolwr Sir Ddinbych Iach	2009/2012
3.3	**Pecyn gwybodaeth Gweithwyr Mudol ar y gwasanaethau a ddarperir gan Gyngor Sir Ddinbych mewn gwahanol ieithoedd a chyfeirio gweithwyr at sefydliadau partner a ffynonellau gwybodaeth/cefnogaeth eraill.**	Ariannu presennol	3. Swyddog Polisi Cyngor Sir Ddinbych (DD) 4, 5 & 6. Oes	7. Pecyn gwybodaeth drafft i'w gwblhau erbyn Mawrth 2009. Fersiwn derfynol Ebrill 2009. 8. ? 9.? 10 ?
4	**Prosiectau Hyfforddi a Llyfrgell**			
4.1	**Datblygu sgiliau i staff llinell flaen ym mhob asiantaeth drwy sesiynau rhwydweithio a hyfforddi (Hawliau Lles/Llythrennedd Ariannol/Tlodi Tanwydd/modiwl SILP).**	1. Gwyro rhaglenni cyllideb. 2. n/a	3. Grŵp Cynhesrwydd Fforddiadwy. Rhwydwaith Gwrth-dlodi. Uned Gwrth-dlodi a Hawliau Lles 4. Gyda Chyngor ar Bopeth 5. Oes 6. Oes	7) 2009/2012 8) Nifer y sesiynau hyfforddi a chyfranogwyr 9) 6 o sesiynau hyfforddi a 90 o gyfranogwyr. 10) Mae'r cyhoedd sy'n cysylltu â staff rheng flaen yn fwy gwybodus

	Themâu neu Amcanion a Phrosiectau neu Weithrediadau	1. Cost 2. Ariannu wedi ei gymeradwyo	3. Cyfrifoldeb arweiniol 4. Gweithio ar y Cyd 5. Effaith Wledig/Drefol 6. Effaith Cydraddoldeb	7. Amser 8. Mesuriadau 9. Targedau 10. Canlyniadau
				ac yn gallu cyrchu gwasanaethau a phrosiectau sy'n lleihau tlodi.
4.2	**Cyrff y sector gyhoeddus sy'n cynnig hyfforddiant/cyfleoedd cyflogaeth yn enwedig i ofalwyr**		3. Grŵp Datblygu Gweithlu Iechyd a Gofal Cymdeithasol? Grŵp Strategaeth Gofalwyr Sir Ddinbych. Hefyd i'w dilyn fel rhan o fid Cydgyfeiriad Ewropeaidd.	Ebrill 09.
4.3	**Hyrwyddo Agenda Hawl am Ddim y Cynulliad ar gyfer Llyfrgelloedd**	Dim costau ychwanegol/ariannu'n ymglymedig	3) Prif Lyfrgellydd 4) 5) 6)	7) 8) benthyg llyfrau am ddim, defnydd o'r rhyngrwyd a chyfrifiaduron am ddim; defnyddio adnoddau gwybodaeth ar-lein am ddim, staff cyfeillgar wrth law i helpu; mae plant yn rhydd oddi wrth daliadau sy'n orddyledus ac nid oes yna unrhyw godiadau am ofyn am lyfrau o'r tu mewn i Gymru 8) 9) 10)
4.4	**Cyflenwi cwrs Sgiliau Chwilio am Waith yn Llyfrgell Y Rhyl:** llenwi ffurflenni cais ar-lein, defnyddio cyfrifiaduron a chwilio ar y rhyngrwyd. Mae hyn yn ychwanegol at sgiliau Sylfaenol, TG a chyrsiau Ail Gynnig yn Llyfrgell Y Rhyl.	1)	3) Coleg Llandrillo. 4) Gwasanaeth Llyfrgelloedd a Chanolfan Byd Gwaith	7) Mis Medi ymlaen 8) 9) 10)
5	**Incwm, Dyledion ac Ynni**			
5.1	**Cynyddu cymeriant yr holl fudd-daliadau a chredydau treth a chynrychioli pobl mewn tribiwnlysoedd**	1. 2.Ariannu Cyngor Sir Ddinbych c. tua £500k y flwyddyn	3. Rheolwr Uned Gwrth-dlodi a Hawliau Lles, Siop	7. 2009 to 2012 8. Amount of benefits and tax credits claimed.

	Themâu neu Amcanion a Phrosiectau neu Weithrediadau	1. Cost 2. Ariannu wedi ei gymeradwyo	3. Cyfrifoldeb arweiniol 4. Gweithio ar y Cyd 5. Effaith Wledig/Drefol 6. Effaith Cydraddoldeb	7. Amser 8. Mesuriadau 9. Targedau 10. Canlyniadau
	apeliadau. Cysylltu â Strategaeth Gofalwyr yn cynnwys gofalwyr ifanc mewn ardaloedd gwledig).		Cyngor ar Fudd-daliadau a Chyngor ar Bopeth 4. Rhwydwaith Cyngor Sir Ddinbych.5. Oes 6. Oes	9. £7m y flwyddyn 10. Llai o dlodi, gwell iechyd a chynhwysiad cymdeithasol
5.2	**Pobl asesiadau hawliau lles sy'n gorfod talu am Wasanaethau Cymdeithasol Cyngor Sir Ddinbych (pobl hŷn, pobl gydag anabledd dysgu, synhwyraidd neu gorfforol, neu bobl gydag afiechyd meddwl yn bennaf a'u gofalwyr.**	1. Tri o gynghorwyr hawliau lles 2. Cyllideb Sylfaenol	3. Uned Hawliau Lles 4. Ie gyda thimau Gwasanaethau Cymdeithasol eraill. 5. Oes 6.Oes	7. Hyd y cynllun. 8. Budd-dal ac enillion Credyd Treth. 9. £260k i £465k y flwyddyn 10. Tlodi wedi ei leihau, gwell iechyd a chynhwysiad cymdeithasol.
5.3	**Asesiadau hawliau lles i Denantiaid y Cyngor sydd mewn anhawster ariannol ac ymgeiswyr digartref i Gyngor Sir Ddinbych.**	1. Un cynorthwyydd hawliau lles. 2. Ariannu tai presennol	3. Tîm Hawliau Lles. 4. Gyda'r Adran Dai 5. Oes. 6. Oes	7. 2009/2010 8. Cynhyrchu incwm i unigolion. 9. Incwm ychwanegol o £388k i 216 o Gartrefi 10. Tlodi wedi ei leihau, gwell iechyd a chynhwysiad
5.3	**Trafod taliadau realistig ar ddyledion personol**		3. Cyngor ar Bopeth Sir Ddinbych. 4. Rhwydwaith Gynghori Sir Ddinbych, yn cynnwys Undebau Credyd 5. Oes. 6. Oes	7. 2009 i 2012 8. Symiau dyled wedi eu trafod 9. £15m i 1000 o bobl. 10. Bydd Incwm Sylfaenol sydd ar gael ar gyfer gwariant hanfodol yn lleihau tlodi ac yn gwella iechyd a chynhwysiad.

	Themâu neu Amcanion a Phrosiectau neu Weithrediadau	1. Cost 2. Ariannu wedi ei gymeradwyo	3. Cyfrifoldeb arweiniol 4. Gweithio ar y Cyd 5. Effaith Wledig/Drefol 6. Effaith Cydraddoldeb	7. Amser 8. Mesuriadau 9. Targedau 10. Canlyniadau
5.4.	**Cynllun Gweithredu Tlodi Tanwydd yn cynnwys 7 amcan a chamau cysylltiedig. Addysgu ac annog teuluoedd domestig i fod yn fwy ynni effeithlon yn eu cartrefi (Gweithred SDdl 2.9)**	1. Oes 2. Peth GICC ar gyfer hyfforddi. Cymru Gynnes?	3. Rheolwr Cynhwysiad Cymdeithasol a'r Sector Wirfoddol 4. Ystod eang o grwpiau. 5. Oes	7. 2008 i 2011. 8. Pob camau''n cael eu mesur a'u hadolygu mewn cyfarfodydd Grŵp Cynhesrwydd Fforddiadwy chwarterol 9. 10. Llai o salwch a "gormodedd" y gaeaf sy'n ymwneud ag oerni
5.5	**Ymgeisio tuag at bolisïau codi tâl Cyngor Sir Ddinbych sy'n hyrwyddo cyrchiad i wasanaethau a dderbynnir gan bobl ddifreintiedig**	1. 2. Gwyro rhaglenni.	3. CSM	2009 i 2012 Adolygu polisïau presennol e.e. taliadau unffurf am symud dodrefn diangen. Hyrwyddo'r defnydd o gynlluniau dewisol e.e. nofio am ddim i bobl hŷn e.e. drwy ddefnyddio
5.6.	**Undeb Gredyd Caledfryn** Cynnig cyfrifon banc sylfaenol. Annog aelodau i gynilo. Darparu benthyciadau i aelodau gyda chyfraddau llog rhesymol. Cyfrifon cynilo Nadolig.	Ariannu grant wedi ei awdurdodi a'i reoleiddio gan yr FSA. FSA - 213713	Yn agored i unrhyw un sy'n byw neu'n gweithio yn Sir Ddinbych I'r de o'r A55.	
5.7	**Adroddiadau Meddygol a Thystysgrifau i'w darparu am ddim gan weithwyr meddygol proffesiynol i bobl sydd eu hangen ar gyfer hawliadau, adolygiadau neu apeliadau Budd-dal..**	1) 2) Cronfeydd presennol	3. Rheolwr Gwrth-dlodi a Hawliau Lles. 4. Rhwydwaith Gynghori Sir Ddinbych	7) 2009/2012. 8 a 9) Dim un asiantaeth gynghori'n adrodd taliadau. 10) Dim angen i bobl ddefnyddio eu budd-daliadau i sicrhau eu hawliau sylfaenol.

10 Lleihau Tlodi Plant

	Themâu neu Amcanion (6) a Phrosiectau neu Gamau (27)	1. Cost 2. Ariannu a gytunwyd	3. Prif Gyfrifoldeb 4. Gweithio ar y Cyd 5. Effaith Trefol a Gwledig 6. Effaith cydraddoldeb	7. Rhychwant amser 8. Mesuriadau 9. Targedau 10. Canlyniadau
1.	**Gweithrediadau Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc (PPPhI)**			
1.1	**Cynyddu'r defnydd o holl fudd-daliadau mewn gwaith a di-waith a chredydau treth yn cynnwys y rheiny sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim (PPPhI 7.1.1)**	1. 2 CSDd yn ariannu oddeutu £500k y flwyddyn	3. Uned Gwrth-dlodi a Hawliau Lles, Siop Cyngor Budd-daliadau a Chyngor ar Bopeth. 4. Rhwydwaith Gynghori Sir Ddinbych. 5. Oes 6. Oes	7. 2009/2012 8. Symiau'r budd-daliadau a'r credydau trech a hawlir 9. £7m y flwyddyn 10. Gwell iechyd, cyrhaeddiad addysgol a chyfleoedd cyflogaeth
1.2.	**Cynyddu'r defnydd o brydau ysgol am ddim a lleihau'r rhwystrau sy'n cyfyngu ar eu defnydd.(PPPhI 7.1.2)**	1. Adnoddau, staff, hysbysebu. 2. Cyfraniad Llywodraeth Cynulliad Cymru	3. Adran Bwrdd Iechyd/Budd-dal y Dreth Gyngor 4. Ymglymiad gydag ysgolion, Sefydliadau Gwirfoddol, Adrannau Cysylltiedig eraill yng Nghyngor Sir Ddinbych. 5.Oes 6.	7. 2009/2012 8. Mwy o ddefnydd o'r Prydau Ysgol Am Ddim 9. 10. Gwell iechyd a mwy o arian i ysgolion.
1.3.	**Dechrau'n Deg yn Sir Ddinbych 2009 – 2011** 'I fod yn gynhwysol ac â ffocws, yn ymdrechu i greu tîm Dechrau'n Deg amlddisgyblaeth i hyrwyddo ymyriad cynnar a gwasanaethau integredig a fydd yn gwneud gwahaniaeth pendant i gyfleoedd bywyd 450	**1) Cost** **Refeniw** 2009/10 806,058: 2010/11 887,337 **Cyfalaf**	**3) Prif Gyfrifoldeb** Cydlynydd Dechrau'n Deg ac Uwch Swyddog Addysg yn gyfrifol am y fenter. **5) Effaith Wledig / Drefol** Fe ddefnyddiwyd mynegai amddifadedd lluosog a chymhwysedd am brydau ysgol am ddim i bennu	**Rheoli rhaglen Dechrau'n Deg.** Partneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc a Phartneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant / Gweithgor Hawl Bore Oes sy'n arolygu'r rhaglen, yn derbyn adroddiadau gan yr Uwch Swyddog Addysg perthnasol a Chydlynydd Dechrau'n Deg. Drwy Gytundebau Lefel Gwasanaeth gyda darparwyr y cyflawnir hawliadau Dechrau'n Deg yn Sir Ddinbych. Mae'r Cynllun Gweithredu a gytunwyd gan y Grŵp Llywio'n rhoi manylion am nodau, swyddogaethau a chyfrifoldebau i gyflawni'r rhaglen aml-asiantaeth.

	Themâu neu Amcanion (6) a Phrosiectau neu Gamau (27)	1. Cost 2. Ariannu a gytunwyd	3. Prif Gyfrifoldeb 4. Gweithio ar y Cyd 5. Effaith Trefol a Gwledig 6. Effaith cydraddoldeb	7. Rhychwant amser 8. Mesuriadau 9. Targedau 10. Canlyniadau
	o blant 0-4 oed a'u teuluoedd yn ardaloedd dalgylch targed yr ysgol sef Gwaenynog yn Ninbych, Christchurch ac Emmanuel yn Y Rhyl.	2009/10 109,548 20010 /11 109,548 **2) Ariannu Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ei gymeradwyo**	dalgylchoedd Gwaenynog yn Ninbych a Gorllewin a De Orllewin Y Rhyl. **6) Effaith Cydraddoldeb** Un o gyflawniadau allweddol y rhaglen hyd yma yw ei lwyddiant i ymglymu â rhai o'r teuluoedd anoddaf eu cyrraedd ac nad ydynt yn draddodiadol wedi ymglymu â gwasanaethau. Fe gyflawnwyd hyn drwy gyfuniad o gyfeiriadau, ymweliadau cartref, a mynd gyda, a theuluoedd pan fyddant yn mynychu grwpiau neu sefyllfa am y tro cyntaf.	**7) Rhychwant Amser** Tan 2011 **8) Mesuriadau** *Un o'r sialensiau i'r rhaglen yw sicrhau bod cyfran uchel o deuluoedd sydd â'r anghenion mwyaf yn yr ardal yn cael eu cyrraedd. Bydd hyn yn gritigol wrth sefydlu cynllun bod partneriaethau'n dangos sut y byddant yn ymgysylltu â'r teuluoedd hyn, a bydd Llywodraeth y Cynulliad yn rhoi sylw penodol i hyn wrth asesu cynlluniau.* Canllawiau Llywodraeth Cynulliad Cymru 2008 **9) Targedau** Eu cytuno gyda darparwyr Cytundeb Lefel Gwasanaeth yn nodi, fel rheol, gyrhaeddiad y gwasanaeth drwy niferoedd a chanrannau'r defnydd. **10) Canlyniadau** Mae'r dystiolaeth yn awgrymu'r canlynol fel canlyniadau mesuradwy allweddol i blant y mae'n rhaid i Dechrau'n Deg eu targedu: • Datblygiad iaith, gwybyddol, cymdeithasol ac emosiynol • Iechyd corfforol • Adnabod anghenion sylweddol yn gynnar
1.4	**Targedu Asesiadau Hawliau Lles at y rheiny sydd mewn tlodi difrifol (PPPhl 7.1.3) yn enwedig mewn ardaloedd gwledig ac ar gyfer gofalwyr ifanc.** **Targedu Asesiadau Hawliau Lles at y rheiny sydd mewn tlodi difrifol yn ardal cymunedau'n gyntaf (PPPhl**	1. Un Cynghorydd Hawliau Lles 2. Cyllideb sylfaenol "Gwyro rhaglen".	3. Uned Gwrth-dlodi a Hawliau Lles. 4. Gweithio gyda Gweithwyr Cymdeithasol Addysg a Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai, Canolfan Teuluoedd Integredig (Derwen) a Grwpiau Gofalwyr. 5. Effaith Ddeuol. 6. Oes	7. 2009/2012. 8. Mwy o ddefnydd o fudd-daliadau a chredydau treth. 9. Enillion credyd trech a budd-daliadau ychwanegol o £250k y flwyddyn ar gyfer hyd at 200 o deuluoedd. 10. Tlodi wedi ei leihau, Gwell iechyd a chyflawniad addysgol a chyfleoedd cyflogaeth

	Themâu neu Amcanion (6) a Phrosiectau neu Gamau (27)	1. Cost 2. Ariannu a gytunwyd	3. Prif Gyfrifoldeb 4. Gweithio ar y Cyd 5. Effaith Trefol a Gwledig 6. Effaith cydraddoldeb	7. Rhychwant amser 8. Mesuriadau 9. Targedau 10. Canlyniadau
	7.1.3)			
1.5.	**Cyngor ar fudd-daliadau a Chredyd Trech i bobl sydd â chysylltiad â phrosiectau a ariennir gan Cymorth. (Plant a Phobl Ifanc 7.1.3)**	1. £42,000 2. Cymeradwywyd gan Cymorth	3. Siop Gyngor Budd-daliadau'r Rhyl (Nick Scott) 4. Gyda phrosiectau a rennir gan Cymorth. 5. 6.	7 Eu monitro mewn cyfarfodydd tîm misol. 8. Defnyddio data-bas a chasgliad ystadegau dyddiol. 9. 2009/10: £300k i 325k ar gyfer 350 i 375 o bobl. 2010/11: £375k i £400k ar gyfer 375 i 400 i 425 o bobl 10. Adroddiadau chwarterol ar gefnogaeth, arweiniad a dealltwriaeth
1.6.	**Cyflawni cynlluniau aml-asiantaeth i gefnogi rhieni ar incwm isel i weithio (PPPhI 7.2.) Cysylltu â Strategaeth Gofalwyr yn cynnwys gofalwyr ifanc mewn ardaloedd gwledig.**	1. 2. Oes	1. Rheolwr Strategaeth Ddinesig? 2 . 3. 4. 5 & 6	7. 8. 9. 10.
2	**Cyfraith Wladol a Chanllawiau**			
2.1	**Helpu i weithredu deddfwriaeth Llywodraethau'r DU i symud 50% o blant o dlodi erbyn 2010 (Gweithred SDdI 1.4)**	1. 2. Na	3. Llywodraeth y DU a'r Cynulliad Cymreig.	4. SDdI a PPPhI + Cynlluniau gweithredu tlodi plant lleol (gweler isod)_ 7) erbyn 2010
2.2	**Gweithredu mesurau Tlodi Plant a Chynllun Gweithredu Tlodi Plant Llywodraeth Cynulliad Cymru i "brofi tlodi plant" mewn cynlluniau**		1. Rheolwyr PPPhI 3. CSDd a chomisiynu Cymorth	

	Themâu neu Amcanion (6) a Phrosiectau neu Gamau (27)	1. Cost 2. Ariannu a gytunwyd	3. Prif Gyfrifoldeb 4. Gweithio ar y Cyd 5. Effaith Trefol a Gwledig 6. Effaith cydraddoldeb	7. Rhychwant amser 8. Mesuriadau 9. Targedau 10. Canlyniadau
	a phrosiectau newydd a "gwyro rhaglenni" mewn cynlluniau a phrosiectau presennol.			
2.3	**Gwrth-dlodi – nid ynglŷn â budd-daliadau'n unig. Cysylltu â Chynllun Tlodi Plant y Cynulliad Cymreig i leihau tlodi incwm, gwasanaeth a chyfranogiad.**	nil	Rhwydwaith Gwrth-dlodi gyda SDdI a PSPPI	7. 2009 2012
2.4.	**Ystyried profiad o arbrofion ymarfer da Llywodraeth Cynulliad Cymru a Save the Children a phecyn cymorth tlodi plant Cymdeithas Awdurdodau Lleol.**	nil	Rhwydwaith Gwrth-dlodi gyda SDdI a PSPPI	7. 2009 2012
3	**Rhwydweithio ac Ymwybyddiaeth**			
3.1	**Nodi pwyntiau allweddol ar gyfer hyfforddiant cyfeiriadau ac ymwybyddiaeth i staff allu rhaeadru gwybodaeth.** **Dechrau'n Deg, Pobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) Timau Troseddwyr Ifanc, gofalwyr ifanc.**	nil	Siopau un stop, llyfrgelloedd, timau cyswllt cyntaf, timau cyswllt cwsmeriaid, Cyfarfod Clwstwr ac Ysgolion Bro. Rhwydwaith 14-19 a Gyrfa Cymru	8. % y bobl ifanc sy'n dod yn NEET 9. 10. Sefydlu lleoliad i dîm NEET yng Ngyrfa Cymru, Y Rhyl. Sefydlu swyddogaethau personél allweddol yng Ngyrfa Cymru, Tîm Anogwr Dysgu Sefydlu rhaglenni allweddol ar gyfer y bobl ifanc hynny sydd, neu sydd mewn perygl, o ddod yn NEET.

3.2	**Targedu rhieni sengl drwy weithgareddau cymunedol deniadol a thrwy bartneriaid.**	nil	Cymunedau'n Gyntaf, Home Start, Canolfan Integredig, Ymwelwyr Iechyd.	
4.	**Cwricwlwm ac Ysgolion**			
4.1	**Prosiect Llythrennedd Ariannol.** Cefnogi pobl a phobl ifanc i ddysgu am reoli arian a sgiliau bywyd	1. £15,000 2. Oes Cymorth	3. CAB Sir Ddinbych 4. CAB ac asiantaethau a grwpiau cymunedol perthnasol eraill yn enwedig Siopau Cyngor ar Fudd-daliadau.	5. Oes gyda ffocws ar y De gwledig 6. Cyfleoedd Cyfartal yn integrol 7. 2 flynedd o 2009. 8. Presenoldeb mewn sesiynau hyfforddi 9. 150 o deuluoedd a 10 o sesiynau hyfforddi 10. Gwell cyrchiad i wasanaethau ariannol + dyled wedi ei lleihau.
4.2	**Dod o hyd i ffyrdd di-stigma i gymorthdalu cost tripiau, gweithgareddau a chyfarpar hanfodol.**	Dechrau'n Deg yn ariannu tripiau ar gyfer Grwpiau Chwarae. Iaith a Chwarae. Tegan yn ystod gwyliau'r haf	3. Dysgu Gydol Oes	Tripiau Grŵp Chwarae ac Iaith a Chwarae yn ystod tymor yr ysgol. Ar gyfer plant cyn-ysgol. Digwyddiadau haf yn cael eu rhedeg gan Lyfrgell Tegan: Sesiynau chwarae yn Eirianfa. Dyddiadau'r sesiynau hyn fydd • Dydd Mawrth Gorffennaf 21 10.00 - 11.30a.m • Dydd Mawrth Awst 4 10.00 - 13.00a.m • Dydd Mawrth Awst 18 10.00 - 11.30a.m
4.3	**Ystyried yr angen am, ac effaith ariannol, dewis gwisg ysgol arbennig, yn enwedig mewn ysgolion cynradd.**	Manylion i ddilyn	3. Dysgu Gydol Oes	Rhwydwaith Gwrth-dlodi a Gwasanaeth Gwybodaeth Plant i ystyried sut i fwrw ymlaen â hyn.
4.4	**Ystyried mabwysiadu rhaglen addysgol wedi ei ddylunio i helpu plant difreintiedig i ddal i fyny â'u cyfoedion. Cysylltiad â Strategaeth Gofalwyr, yn**	2) Grant Rhagori £149500 2009/10 2) Grantiau	**Cynllun Dal i Fyny** 3) Dysgu Gydol Oes. Rhwydwaith 14 i 19. 4) Uwch Swyddog Gwella Ysgolion (TJ). Cydlynydd Rhwydwaith 14 i	**Cynllun Dal i Fyny** Ymglymu ffocws rhieni ar gynyddu ymglymiad rhieni a gwella cysylltiadau ysgol a chartref ar gyfer plant difreintiedig a phlant sy'n agored i niwed. Mae'r Rhwydwaith 14-19 wedi trefnu a chyflenwi hyfforddiant i staff mewn sefydliadau partner gyda'r cynllun 'Dal i Fyny' i wella

	enwedig gofalwyr ifanc mewn ardaloedd gwledig. **"Cynllun Dal i Fyny" i wella llythrennedd a rhifedd i rai 14-16 oed.** **Sgiliau Sylfaenol Cymru**	Ymyrryd Sgiliau Sylfaenol 2008-2010	19 (JG) Mae Rhwydwaith 14 i 19 yn cynnwys ysgolion, Awdurdod Lleol, colegau, Gyrfa Cymru etc. 5) Rhwydwaith yn cwmpasu pob ardal yn y Sir. **Sgiliau Sylfaenol Cymru** 3. Dysgu Gydol Oes/Cynghorydd Llythrennedd a Chydlynydd Lifelong Learning /Literacy Adviser & SIGs Coordinator 4.Llywodraeth Cynulliad Cymru – Sgiliau Sylfaenol Cymru 5. Rhaglenni ar gyfer Llythrennedd a Rhifedd ar gael mewn ysgolion gwledig a threfol 6. Mae rhaglenni ar gael yn galluogi disgyblion i ddal i fyny â'r cyfoedion.	Llythrennedd a Rhifedd drwy ymyriadau i rai 14-16 oed. **Sgiliau Sylfaenol Cymru** 7) Ariannu wedi ei gadarnhau tan fis Mawrth 2010 8) Gwelliannau mewn Oedrannau Darllen a/neu oedrannau mathemateg (manylion ar gael ar gais) 9) I o leiaf 90% o ddisgyblion ddal i fyny â'u cyfoedion 10) Enillion oed darllen cyfartalog mewn mathemateg o 15-17 mis mewn cyfnod o 8 mis
4.5	**Hyrwyddo Clybiau Gwaith Cartref mewn Ysgolion** Argymhellion gan Glybiau Plant Cymru	1) Swyddog Datblygu rhan-amser 2) Elfen Gofal Plant Grant Ysgolion Bro (i'w gadarnhau)	3. Dysgu Gydol Oes 4) 5) 6)	7) 8) & 9) •Datblygu clybiau gofal plant ar ôl ysgol a gwyliau i bontio'r bwlch mewn darpariaeth •I weithio gyda phartneriaid i ystyried sut y gellir cynnal darpariaeth ysgol yn y tymor hir drwy drefniadau clwstwr, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig •I roi cefnogaeth barhaus tuag at gynaladwyedd clybiau y tu allan i oriau ysgol yn Sir Ddinbych sy'n anelu at ethos yr ysgolion bro.

				10)
4.6	**Darparu sesiynau galw i mewn ar gyfer rhieni a phlant bach ar safle'r ysgol**	Ariannu gan Ddechrau'n Deg	3. Dysgu Gydol Oes	Mae sesiynau iaith a chwarae'n gweithredu yn adeiladau'r ysgol yng Nghanolfannau Plant Integredig yn Ninbych a'r Rhyl. Mae TWF a MYM hefyd yn darparu sesiynau galw i mewn yn adeiladau'r ysgol (manylion ar gael gan y sefydliadau hynny)
4.7	**Datblygu cytundebau cartref-ysgol sydd wedi eu trafod yn hytrach na'u gorfodi**		3. Dysgu Gydol Oes	Ysgolion yn datblygu Cytundebau Cartref Ysgol gyda rhieni. Gallai prifathrawon ddarparu manylion.
4.8	**Ymglymu rhieni'n gynnar gyda phroblemau presenoldeb neu ymddygiad**	•Ariannu Dechrau'n Deg •Ariannu Cymorth	3) Dysgu Gydol Oes Gwasanaeth Cynnal Ymddygiad (Sheila Breeze) a Gwasanaeth Seicoleg Addysgol (Michael Duke) am waith gyda phlant o oed ysgol. Bydd gan Wayne Wheatley Gwaith Cymdeithasol Addysg wybodaeth ynglŷn â gweithio gyda rhieni ynglŷn â phresenoldeb mewn ysgolion.	Mae Dechrau'n Deg wedi ariannu a rhedeg cyrsiau Rhianta i rieni plant cyn-ysgol a gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant Cyn-ysgol. Caiff presenoldeb mewn ysgolion ei fonitro'n agos drwy systemau'r ysgol a'r gwasanaeth ESW service. Caiff ymyriad cynnar ei ddefnyddio ar gyfer presenoldeb os bydd presenoldeb plentyn yn syrthio dan 80% yn yr ysgol gynradd a'r ysgol uwchradd. Byddai rhieni'n ymglymedig â chyfarfodydd a strategaethau i wella presenoldeb eu plentyn ac mae yna gontinwwm o gefnogaeth wedi ei gydweddu ag anghenion y plentyn. Os oes yna anawsterau emosiynol sy'n atal presenoldeb, yna mae darpariaeth wahanol ar gael i ailadeiladu hyder disgybl yn yr ysgol a byddai'r rhieni'n rhan o'r broses hon. Mae ymglymu rhieni'n fuan ynglŷn ag ymddygiad yn digwydd drwy system yr ysgol ei hun ar gyfer sancsiynau ac ymyriad a byddai rhieni'n cael eu gwahodd i mewn i drafod pryderon am ymddygiad. Os bydd problemau'n parhau yna fe wahoddid rhieni i roi caniatâd i gael cefnogaeth i'w plentyn gan arbenigwr ymddygiad a ddarperir gan yr Awdurdod Lleol. Mewn achosion mwy cymhleth, byddai rhieni'n ymglymedig â chefnogaeth aml-asiantaeth i'w plentyn. Mae'r Gwasanaeth Cefnogi Ymddygiad yn darparu hyfforddiant i rieni gyda rheoli ymddygiad ar gyfer disgyblion o oed cynradd ac

				uwchradd.
4.9	**Gwella cymwysterau'r rhai sy'n gadael ysgol**		3) Rhwydwaith 14-19 4) Mae'r Rhwydwaith 14-19 yn cynnwys ysgolion, Awdurdod Lleol, colegau, darparwyr Addysg Bellach etc 5) Mae'r Rhwydwaith yn cwmpasu pob ardal leol	Manylion i ddilyn gan Julian Molloy a Sarah Ellis Cyfnod Allweddol 3 a Chyfnod Allweddol 4 8. % y bobl ifanc sydd wedi cael cynnig cwricwlwm ardal leol lawn 9. 28 o bynciau'n cynnwys 5 o opsiynau galwedigaethol wedi eu cynnig yn 2009 30 o bynciau'n cynnwys 5 opsiwn galwedigaethol wedi eu cynnig yn 2010 10. Lleihad yn y nifer **Mae'r Rhwydwaith 14 i 19** wedi ymestyn y cwricwlwm sydd ar gael i bob disgybl 14-16 drwy bartneriaid. Mae pob ysgol yn Haen A rhaglen cyflenwad Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer y Mesurau Dysgu a Sgiliau 2009, ac yn cynnig o leiaf 28 o bynciau yn 14 oed yn cynnwys o leiaf 5 o gyrsiau galwedigaethol o o leiaf 3 o'r meysydd dysgu. Rydym yn disgwyl gweld yr effaith cyntaf ar ganlyniadau Cyfnod Allweddol 4 yn 2009 gyda mwy o fyfyrwyr yn dilyn cyrsiau sy'n fwy priodol fel y llwybr tystysgrif BTEC Lefel 2 a Diploma. Fe fydd yna welliannau pellach yn 2010 pan fydd y myfyrwyr ar y cyrsiau newydd hyn yn cyrraedd eu hasesiadau terfynol. Mae'r Rhwydwaith yn gweithio i wella cynnydd hefyd fel y gall myfyrwyr sy'n cyflawni mynediad a chymwysterau Lefel1 yn gallu mynd ymlaen i gyflawni yn Lefel 2 dros 16.
5	**Chwarae, Hamdden a Thrafnidiaeth**			
5.1	**Sicrhau bod ystod eang o gyfleoedd mynediad agored a chyfleoedd chwarae y tu allan i'r ysgol ar gael drwy'r Sir (Clybiau ar ôl Ysgol, Gofal Cofleidiol) chwarae Mynediad Agored).**	2. Cymorth	3. Is-grŵp chwarae'r Grŵp PLE 5 & 6. Oes	7. O 2009 8, 9, 10. Manylion i ddilyn gan wybodaeth perfformiad Cymorth.
5.2	**Mynediad am ddim wedi ei dargedu i chwaraeon a**	1. Cytundebau partneriaeth	4. Tîm Cytundebau Partneriaeth Awdurdod Lleol.	O 2009-2012 Gostyngiad yn nifer plant a phobl ifanc anactif.

	gweithgareddau hamdden.	Awdurdod Lleol 2. Ariannu Craidd	Uwch Dîm Rheoli Hamdden	Nifer y Cardiau Hamdden a ddyrannwyd. Cynnydd yn nifer yr ymweliadau fesul mil o'r boblogaeth. Cynnydd yn nifer cyfranogiad y plentyn 4 i 6 erbyn 2011.
5.3.	**Arbrofi prydau iach am ddim mewn cynlluniau chwarae gwyliau am ddim gyda'r bwriad o gyflwyno hyn ar draws Sir Ddinbych.**	2. Grantiau bychan Cymorth?	3. Dau brif ddarparwyr chwarae Cymorth yng Ngogledd a De Sir Ddinbych 4. Is-grŵp Chwarae PLE	7. 2009 8. Nifer y prydau a gymerwyd 9. 10. Gwell cynhwysiad iechyd a sgiliau coginio.
5.4	**Adfer y cynllun teithio rhatach i bobl ifanc 16 i 18 oed**	1.Ariannu Cyngor Sir Ddinbych (heb ei bennu eto) 2. Dim	3. Rheolwr Adran Cludiant Teithwyr. 4. Gweinyddiaeth wedi ei rannu â Sir y Fflint o bosib 5. Y ddau 6. Yn ochri gyda phobl ifanc	7. Dechrau yn 2009/10 8. Nifer y buddiolwyr. 9. Canran y buddiolwyr o'u cymharu â'r boblogaeth gyffredinol 10. Yn lleihau rhwystrau i waith, addysg, hyfforddiant a hamdden
6.	**Gwasanaethau Newydd neu Ymgyrchoedd Eraill**			
6.1	**Ymgyrch am brydau ysgol am ddim i bob plentyn a pherson ifanc sy'n byw gyda theuluoedd sydd ar lai na 70% o'r cyflog canolrif cyfartalog.**	Ariannu Llywodraeth Cynulliad Cymru	Rhwydwaith Plant a Phobl Ifanc a Gwrth-dlodi	7. 2009 8.Cynnydd yn y defnydd o brydau ysgol 9. 10. Gwell iechyd